Dathlu 'Diwrnod Gwneud Gwahaniaeth' - Ty Siamas, Dolgellau.

A oeddech chi'n ymwybodol fod y dydd Sadwrn olaf ym mis Hydref yn cael ei adnabod fel 'Diwrnod Gwneud Gwahaniaeth'? Dechreuwyd y syniad o ddathlu 'Diwrnod Gwneud Gwahaniaeth' yn ôl ym 1995. Amcan y dydd yw tynnu sylw at y gwahaniaeth mae gwirfoddolwyr yn ei wneud drwy gyfrannu eu hamser, sgiliau a'u hegni. Trefnwyd digwyddiad arbennig yn Nhŷ Siamas, Dolgellau i nodi 'Diwrnod Gwneud Gwahaniaeth' dydd **Gwener, 24ain Hydref.** Yn ystod y bore, roedd cyfle i ddathlu cyfraniad gwirfoddolwyr a mudiadau gwirfoddol yng Ngwynedd, a daeth dros ugain o fudiadau i'r digwyddiad.

Agorwyd y digwyddiad, ac estynnwyd croeso i bawb i Ddolgellau gan Linda Morgan (maer Dolgellau) am 10.00yb. Cafwyd eitemau o adloniant gan ddisgyblion Ysgol Gynradd Dolgellau, ac i ddilyn siaradodd Bethan Gwanas am ei phrofiadau hi wrth wirfoddoli ac am y manteision sydd o roi eich amser yn wirfoddol. Yna daeth disgyblion Ysgol y Gader i ddiddanu'r gynulleidfa. Wedi egwyl fer, tro Lona Wyn Williams o Goleg Meirion Dwyfor oedd i ganu'r delyn. Roedd lluniaeth ysgafn ar gael - diolch i fyfyrwyr adran arlwyo Coleg Meirion Dwyfor. Hefyd tynnwyd raffl, ac roedd 5 gwobr i'w rhannu - diolch i fusnesau lleol am gyfrannu gwobrau hael.

Diolch i bawb a gyfrannodd i lwyddiant y diwrnod.

Margaret Griffith (Cadeirydd Is-Bwyllgor Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd), Linda Morgan (Maer Dolgellau)

Rhai o'r stondinwyr yn Nhy Siamas

Plant Ysgol Gynradd Dolgellau

Bethan Gwanas